



Taflen Ffeithiau Hawlydd Budd-dal Tai Tynnu Cymhorthdal Ystafell Sbâr

Ers mis Ebrill 2013 mae rheolau Budd-dal Tai newydd ar gyfer pobl o oedran gweithio sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Nid yw pensiynwyr yn cael eu heffeithio gan y newid hwn.

Beth yw'r rheolau newydd?

O dan y rheolau newydd, byddwch yn cael Budd-dal Tai yn seiliedig ar y nifer o bobl sydd yn eich cartref a maint eich llety.

Mae'r rheolau yn caniatáu un ystafell wely ar gyfer:

- pob cwpl sy'n oedolion (yn briod neu'n ddi-briod)
- unrhyw oedolyn arall 16 oed neu drosodd
- unrhyw ddau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed
- unrhyw ddau blentyn o dan 10 oed
- unrhyw blentyn arall (ac eithrio plentyn maeth neu blentyn y mae ei brif gartref rhywle arall)
- plant nad ydynt yn gallu rhannu oherwydd anabledd neu gyflwr meddygol
- gofalwr (neu dîm o ofalwyr) yn darparu gofal dros nos.

Caniateir un ystafell wely sbâr ar gyfer:

- gofalwr maeth cymeradwy sydd rhwng lleoliadau, ond dim ond hyd at 52 wythnos o ddiwedd y lleoliad diwethaf
- gofalwr maeth cymeradwy newydd hyd at 52 wythnos o'r dyddiad cymeradwyo os nad oes plentyn yn cael ei leoli gyda hwy yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ni fydd ystafelloedd a ddefnyddir gan fyfyrwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog neu'r lluoedd wrth gefn yn cael ei gyfrif fel 'sbâr' os ydynt i ffwrdd ac yn bwriadu dychwelyd adref. Yn ogystal, efallai y bydd gennych hawl i ystafelloedd gwely ychwanegol os ydych wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar yn y teulu.

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, mae'r rheolau ynglŷn â sut mae eich budd-dal yn cael ei gyfrifo yn wahanol. Siaradwch â'ch Anogwr yn y Ganolfan Byd Gwaith i ddarganfod mwy.

Beth fydd yn newid?

Os cewch eich effeithio, bydd eich cyngor yn rhoi gwybod i chi. Gallant hefyd gynnig cyngor a chymorth.

Os oes gennych ystafelloedd gwely ychwanegol, mae'n bosibl y gall y swm o Fudd-dal Tai a gewch i dalu eich rhent ostwng.

Os cewch eich asesu bod gennych fwy o ystafelloedd gwely nag sydd ei angen ar gyfer eich teulu, cewch eich ystyried fel eich bod yn tan-feddiannu eich llety. Caiff eich rhent cymwys ei leihau:

- 14% ar gyfer un ystafell wely sbâr
- 25% ar gyfer dwy neu fwy o ystafelloedd gwely sbâr

Os ydych yn ystyried symud, mae'n bwysig eich bod yn ystyried y rheolau newydd cyn i chi adnewyddu neu gytuno ar gytundeb tenantiaeth newydd.

Unioni unrhyw ddiffygion

I gwrdd ag unrhyw ddiffyg yn eich rhent, mae nifer o opsiynau y gallech eu hystyried:

- symud neu gyfnewid i lety sy'n faint priodol
- gall dod o hyd i swydd neu gynyddu eich oriau gwaith eich gwneud yn well eich byd
- gwneud cais i'ch cyngor am Daliad Tai Dewisol.
- Ewch i www.gov.uk/housing-benefit i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych yn rhentu ystafell

Gall Incwm ychwanegol o rentu allan ystafell effeithio ar eich budd-daliadau. Bydd eich cyngor neu sefydliad cynghori yn gallu dweud mwy wrthyich.

I gael gwybod mwy am fod yn landlord preswyl ewch i www.gov.uk/rent-room-in-your-home

Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu canllaw ar-lein defnyddiol i rhentu ystafell allan ac a fydd eich ystafell yn dal i gael ei ystyried yn sbâr. Ewch i www.adviceguide.org.uk a chwilio am 'taking in a lodger'.

I wirio addasrwydd lletywr posibl gallwch ofyn am:

- geirda gan eu cyflogwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyflog
- geirda gan landlordiaid blaenorol.

Mae amrywiaeth o wiriadau ychwanegol ar gael. Os byddwch yn penderfynu gwneud y mathau hyn o wiriadau, efallai y bydd yn rhaid i chi neu eich lletywr potensial dalu. Chwiliwch ar-lein i ddarganfod mwy am y canlynol:

- cael geirda gan eu banc neu gyfeirnod credyd
- gwirio os ydynt wedi cael unrhyw broblemau talu rhent yn y gorffennol neu faterion ariannol cysylltiedig
- gwirio am euogfarnau troseddol, ewch i www.gov.uk/browse/employing-people/recruiting-hiring/criminal-record-disclosure

Pam fod Budd-dal Tai wedi newid?

Cyn i'r rheolau newid, roedd y system Budd-dal Tai yn ariannu pobl i fyw mewn tai cymdeithasol gyda mwy o ystafelloedd gwely nag oedd angen arnynt mewn gwirionedd. Mae prinder o dai cymdeithasol ar draws y DU ac mae'r newid hwn yn helpu i wneud y defnydd gorau o'n tai cymdeithasol cyfyngedig. Mae'r newid hwn hefyd yn golygu y gall teuluoedd sy'n byw mewn llety gorlawn symud i gartrefi mwy o faint.

Mae pobl sy'n rhentu gan landlordiaid preifat eisoes yn cael Budd-dal Tai yn y modd hwn, ac mae hyn yn ei wneud yn deg i bawb.

Ble i fynd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'ch opsiynau

I gael gwybod mwy am eich opsiynau, gan gynnwys cymorth a gwybodaeth ariannol ar rentu allan eich ystafell sbâr ewch i www.gov.uk/housing-benefit

Os ydych am wybod mwy am sut y gallai dechrau gweithio neu gynyddu eich oriau effeithio ar eich budd-dal tai, edrychwch ar ein taflen ffeithiau yn www.gov.uk/government/collections/local-authorities-removal-of-the-spare-room-subsidy

Gallwch gael mynediad i filoedd o swyddi gwag drwy ddefnyddio Paru Swyddi Ar-lein yn www.gov.uk/jobsearch

Ac os oes gennych swydd mewn golwg, edrychwch ar yr effaith arnoch drwy ddefnyddio'r Cynghorydd Budd-daliadau ar www.gov.uk/benefits-adviser

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn symud tŷ, neu gyfnewid tŷ gyda rhywun arall, gall eich cyngor neu ddarparwr tai helpu. Ewch i www.gov.uk/apply-swap-homes-council

Gallwch gael mwy o wybodaeth am rentu ystafell yn eich tŷ drwy fynd i www.gov.uk/rent-room-in-your-home

Efallai y gallwch gael Taliad Tai Dewisol i wneud yn iawn am yr holl neu rywfaint o'r gostyngiad - siaradwch â'ch swyddfa Budd-dal Tai i ddarganfod sut i wneud cais neu darllenwch ein taflen ffeithiau yn www.gov.uk/government/collections/local-authorities-removal-of-the-spare-room-subsidy

Gallwch hefyd gael cyngor annibynnol am ddim am faterion tai gan sawl sefydliad.

Canolfannau cyngor ar dai

Mae canolfannau cyngor ar dai yn cynnig help gyda phob mater ar gyfer tai. Maent yn cael eu rhedeg gan gynghorau neu sefydliadau gwirfoddol.

Shelter

Mae Shelter yn cynnig cyngor wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost ac ar-lein am unrhyw broblemau ynglŷn â thai (nid dim ond digartrefedd yn unig).

www.shelter.org.uk

www.sheltercymru.org.uk

www.shelter.org.uk/scotland

0808 800 4444

Canolfannau Cyngor ar Bopeth

Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim yn wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn. Mae llawer o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth hefyd yn cynnig ymweliadau cartref ac mae rhai yn rhoi cyngor drwy e-bost.

www.citizensadvice.org.uk

Ar gyfer Cymru ffoniwch **08444 77 20 20**

Ar gyfer Lloegr ffoniwch **08444 111 444**

Ar gyfer yr Alban ffoniwch **0808 800 9060**

Dylai defnyddwyr 'TextRelay' ffonio **08444 111 445**

Codir tâl o bum ceiniog y funud ar rifau 0844 o linell daear BT a gall gostio cryn dipyn yn fwy o ffonau symudol a ffonau eraill.